# GRIFFITH, JOHN (1713 - 1776), Crynwr



**Enw:** John Griffith
**Dyddiad geni:** 1713
**Dyddiad marw:** 1776
**Priod:** Frances Griffith (née Wyatt)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Crynwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd 21 Mai 1713 yn sir Faesyfed. Ymfudodd i America yn 1726 ac ymunodd â'r Crynwyr gan ddyfod yn weithiwr diflino drostynt. Dychwelodd i Loegr fis Ionawr 1748 a theithiodd 12,000 o filltiroedd yng nghwrs dwy flynedd a hanner. Aeth yn ôl i'r America fis Mai 1750, eithr dychwelodd ym mis Hydref; priododd Frances Wyatt, Chelmsford, swydd Essex, lle y bu byw weddill ei oes ond am un daith arall i America, 1765-6. Bu farw 17 Mehefin 1776, a chladdwyd ef yng nghladdfa'r Crynwyr yn Chelmsford. Cyhoeddodd *Journals of his Life, Travels, and Labours in the Work of the Ministry ...* (amryw argraffiadau, Llundain a Philadelphia) a *Some Brief Remarks upon Sundry Important Subjects ... principally addressed to the ... Quakers ...* (London, 1768, etc.).

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


H. Blackwell, 'Bibliog. of Welsh Americana' yn Ll.G.C


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11279047

Wikidata: Q19325370


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu